| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 18/12/2023 |
| **Teitl:** | Gweinyddiaeth Pensiynau |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Er gwybodaeth |


## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol.

## 2. Fy Mhensiwn Ar-lein

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol.

Mae oddeutu 20,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yn hyn. Mae'r graff isod yn dangos cynnydd yn nifer yr aelodau sydd wedi ymuno a'r system hunan wasanaeth dros y 10 mlynedd diwethaf:




Mae'r system yn caniatáu i aelodau:

- Gweld a diweddaru manylion personol a cyfeiriadau
- Darganfod faint y byddant yn ei dderbyn wrth ymddeol
- Cyfrifo'r swm y lwmp swm ychwanegol y gallent ei gymryd wrth ymddeol
- Gweld hanes eu gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaeth wedi ei drosglwyddo
- Gweld a diweddaru eu buddiolwyr enwebedig
- Gweld eu Datganiadau Buddion Blynyddol

Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno opsiwn i bensiynwyr y gronfa bensiwn weld eu slipiau pensiwn misol ar-lein. Dim ond pan fydd gwahaniaeth mewn taliadau pensiwn o £5.00 o'i


gymharu â thaliad pensiwn y mis cynt yr anfonir slip taliad pensiwn papur i aelodau, felly mae'r gwasanaeth newydd yn galluogi pensiynwyr weld ei slip pensiwn bob mis o hyn ymlaen. Byddwn y stopio anfon slipiau papur i bensiynwyr newydd ac yn annog pensiynwyr cyfredol i stopio derbyn slipiau papur, ond mae'n debyg bydd nifer fawr yn gyndyn o newid, felly nid oes bwriad gorfodi pawb i newid i'r system newydd ar hyn o bryd.


Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'n darparwr meddalwedd i ddatblygu fersiwn Gymraeg o'r wefan Fy Mhensiwn Ar-lein newydd. Gobeithiwn y bydd y wefan hon yn mynd yn fyw ym mis Mawrth neu Ebrill 2024.


Bydd y wefan newydd gyda edrychiad newydd sbon gyda nifer o welliannau a nodweddion newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Proses gofrestru gwell
- Proses mewngofnodi dilysu dau ffactor
- Cynllunydd ymddeoliad newydd
- Datganiad Buddion Blynyddol ar ffurf Fideo (ychwanegiad taladwy)
- Gwiriad ID electronig (ychwanegiad taladwy)

Dyma ychydig o luniau sgrin o sut y bydd y wefan newydd yn edrych:






### 3. Safle we gyffredinol y Gronfa

Mae trafodaethau gychwynnol wedi cymryd lle gyda adran Technoleg Gwybodaeth i ail ddylunio safle we gyffredinol y gronfa i gyd fynd gyda'r ddelwedd newydd.

Mae yna nifer o dudalennau angen eu diweddaru ac rydym yn gobeithio datblygu sawl fideo byr i egluro gwahanol agweddau o'r cynllun i'r aelodau.

### 4. Eisteddfod

Mi oedd gan y gronfa bensiwn stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni.

Fe gafwyd wythnos lwyddiannus iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r stondin er mwyn cael cymorth i:

- Gofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein
- Ddysgu mwy am y cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC's)
- Deall eu Datganiad Buddion Blynyddol
- Ofyn unrhyw gwestiynau cyffredinol am y Cynllun




Rydym yn gobeithio cynnal fwy o ddigwyddiadau fel hyn i aelodau yn ystod 2023/24.

## 5. Cynnydd Pensiwn 2024

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2023 oedd 6.7%. Dyma fydd y ffigwr a ddefnyddir yn Ebrill 2024 i gynyddu buddion pensiwn (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Llywodraeth) i bensiynwyr sydd wedi ymddeol ers 12 mis neu fwy.

## 6. Diweddariad gweinyddol wrth symud ymlaen

O 2024/25 bydd yn ofynnol i ni adrodd ar nifer o faterion ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nifer o achosion gwaith a dderbyniwyd
- Yr amser a gymerir i brosesu'r gwaith
- Nifer yr aelodau sydd wedi cofrestru ar gyfer y porth Fy Mhensiwn Ar-lein
- 5 tudalen yr ymwelwyd â hwy fwyaf ar borth Fy Mhensiwn Ar-lein
- Nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd
- Nifer yr ymholiadau e-bost a dderbyniwyd
- Amser aros ar gyfartaledd i siarad ag aelod o staff
- Nifer y digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd
- Nifer y cyfarfodydd un-i-un a gynhelir
- Sawl tro mae cyfathrebiad yn cael ei anfon at aelodau
- Nifer y staff gweinyddol
- Cyfartaledd hyd gwasanaeth staff gweinyddol
- Nifer y swyddi gwag mewn blwyddyn
- Cymhareb staff gweinyddol i gyfanswm nifer aelodau'r cynllun
- Nifer yr achosion a gwblhawyd gan aelod o staff
- Nifer y Datganiadau Buddion Blynyddol a gyhoeddir bob blwyddyn
- Sgôr data cyffredin
- Sgôr cynllun penodol
- Nifer y cofnodion 'wedi mynd i ffwrdd' (dim cyfeiriad cyfredol ar eu cyfer)
- Nifer y cofnodion gyda chyfeiriad e-bost

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y byddwn yn gallu cofnodi'r holl wybodaeth hon yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf. Y gobaith yw y gellir cynnwys nifer o'r materion hyn hefyd mewn diweddariadau gweinyddol yn y Bwrdd Pensiwn yn y dyfodol, fel y gall y Bwrdd olrhain ein cynnydd.